Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

Argae Lane
Y Barri
CF63 1BL

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 815 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 813 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | Dd/b |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 21.1%) | 15.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 11.2%) | 19.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 04/11/2019 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/05/2023 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/05/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn gymuned groesawgar a chynhwysol lle mae'r ethos Catholig yn sail gref i fywyd yr ysgol. Mae staff wedi ymrwymo'n ddwfn i weledigaeth yr ysgol, sef meithrin disgyblion caredig, llwyddiannus a gwydn, ac maent yn darparu cefnogaeth gref ar gyfer lles disgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn ymddwyn yn briodol, ac yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi. Mae amrywiad yn ansawdd yr addysgu ar draws adrannau. Ym mwyafrif y gwersi, mae cynllunio athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd addas. Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu'n gryf, ac o ganlyniad i gynllunio medrus, disgwyliadau uchel a holi treiddgar, mae disgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae diffyg her, strwythur ac ymatebolrwydd angenrheidiol yn yr addysgu i ddiwallu anghenion disgyblion, yn enwedig ar gyfer y rhai â medrau gwannach. O ganlyniad i hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Oherwydd cryfderau mewn addysgu Saesneg, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau darllen, ysgrifennu a llafaredd addas ond nid yw cyfleoedd i ddatblygu y tu hwnt i'r gwersi hyn wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r ysgol wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd, ond mae diffyg cynllunio strategol a gwerthuso yn yr arweinyddiaeth. Hefyd, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion y tu allan i wersi mathemateg a thechnoleg gwybodaeth wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae lles disgyblion yn gryfder nodedig yn yr ysgol. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda, ac mae systemau i gefnogi eu hanghenion personol ac emosiynol yn effeithiol ac wedi'u strwythuro'n dda. Mae ymagwedd yr ysgol at hyrwyddo cynhwysiant ac ymateb i fwlio yn glir ac yn effeithiol, ar y cyfan. O ganlyniad, dywed disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cynnwys darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gymorth ar gyfer athrawon. Fodd bynnag, ni chaiff effaith y ddarpariaeth ei gwerthuso'n drylwyr, ac mae hyfforddiant annigonol ar gyfer staff i'w galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer diwallu anghenion disgyblion ag ADY. O ganlyniad, nid yw lleiafrif o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd digonol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i gwreiddio yng ngwerthoedd yr Efengyl, yn ogystal â chanolbwyntio ar gefnogi datblygiad personol disgyblion. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n eang â chymuned yr ysgol, ac mae llawer o agweddau ar waith yr ysgol yn sail iddi. Er bod arweinwyr ar bob lefel yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, mae diffyg manylder yn y prosesau ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar effaith yr addysgu ar ddysgu'r

disgyblion. Nid yw cynllunio strategol gan uwch arweinwyr bob amser yn nodi nac yn mynd i'r afael â’r blaenoriaethau mwyaf pwysig yn ddigon da. Nid yw strwythurau atebolrwydd ar draws yr ysgol wedi’u datblygu’n ddigonol, ac nid ydynt yn cynorthwyo staff i wella ansawdd eu gwaith.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn amrywiol ac addas, ac mae staff yn elwa ar ymglymiad yr ysgol mewn addysg gychwynnol athrawon. Fodd bynnag, nid yw effaith dysgu proffesiynol ar arfer yn cael ei gwerthuso’n ddigonol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pump o argymhellion i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Gwella cysondeb addysgu o ansawdd da ar draws yr ysgol

A2. Cryfhau arweinyddiaeth strategol medrau fel bod disgyblion yn cael cyfleoedd heriol a graddol i wella’u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm

A3. Gwella’r cynllunio a’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY

A4. Sicrhau bod prosesau gwella ysgol yn canolbwyntio’n fanwl gywir ar effaith y ddarpariaeth ar ddysgu a chynnydd disgyblion

A5. Cryfhau atebolrwydd ar bob lefel

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o’r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

Mae llawer o athrawon yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard yn meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol â'u disgyblion, ac o ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu, yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Maent yn brydlon, yn setlo'n gyflym ac yn ymddwyn yn briodol. Fodd bynnag, mae gan ychydig o ddisgyblion agwedd negyddol tuag at ddysgu. Maent yn cael trafferth dal ati i ganolbwyntio ac nid ydynt yn cwblhau gwaith. Yn y gwersi prin lle nad yw disgyblion yn ymddwyn yn briodol, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'u hymddygiad, neu nid ydynt yn ei reoli'n ddigon da.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gref. Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau i adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn defnyddio adnoddau buddiol i gefnogi eu cynnydd. At ei gilydd, ceir lefel addas o her a chyflymdra dysgu yn y gwersi hyn. Mae athrawon yn holi disgyblion yn briodol i wirio dealltwriaeth cyn symud y dysgu ymlaen. At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau addas i asesu dysgu'r disgyblion ac yn rhoi adborth buddiol, sy'n eu helpu i wella'u gwaith. Fodd bynnag, ceir diffyg cysondeb ar draws yr ysgol, ac mewn lleiafrif o achosion, nid yw'r adborth yn ddigon manwl gywir i gefnogi gwelliant disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, lle mae'r addysgu'n hynod effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn hyderus, ac yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau newydd. Yn y gwersi hyn, mae athrawon:

- yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni
- yn cynllunio'n fedrus, gan ganolbwyntio ar beth maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu, a sut
- yn rhannu'r dysgu yn gamau bach ar gyfer disgyblion â medrau gwannach, yn symud ar gyflymdra priodol ac yn darparu'r cymorth teilwredig sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd da
- yn gofyn ystod o gwestiynau treiddgar sy'n herio disgyblion i ddatblygu eu meddwl a dyfnhau eu dysgu
- yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gydweithio a dysgu gyda'i gilydd

Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig oherwydd diffygion pwysig mewn addysgu. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon:

- yn addasu eu haddysgu i ddiwallu anghenion disgyblion â gwahanol alluoedd
- yn cynnig digon o her i ddisgyblion
- yn ystyried yn ddigon da beth maent eisiau i ddisgyblion ei ddysgu
- yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau disgyblion ochr yn ochr â'u dealltwriaeth bynciol
- yn defnyddio holi'n ddigon da i ddatblygu meddwl disgyblion

### Llythrennedd

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. Maent yn barod iawn i ymateb i gwestiynau athrawon, ac yn rhoi atebion byr ac addas. Mewn lleiafrif o achosion, mae natur holi athrawon yn cyfyngu ar ymatebion llafar disgyblion gan nad yw'n rhoi'r cyfle iddynt roi atebion estynedig. Yn gyffredinol, mae disgyblion mwy abl yn mynegi eu hunain yn hyderus, gan ddefnyddio terminoleg berthnasol wrth drafod eu gwaith gyda'i gilydd. Er enghraifft, mewn gwersi hanes, maent yn ystyried trobwyntiau allweddol yn y mudiad hawliau sifil mewn grwpiau bach. Mae ychydig o ddisgyblion yn hynod huawdl. Maent yn cymryd rôl arweiniol mewn gwaith grŵp, yn crynhoi ac yn cyfosod yn dda beth mae pobl eraill wedi'i ddweud, ac yn rhyngweithio'n fedrus â phobl eraill, gan esbonio'u barn yn glir. Nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwrando'n ddigon da ar ei gilydd na'r athro. Maent yn amharod i wneud cyfraniadau llafar mewn gwersi, ac mae ganddynt ddiffyg hyder wrth gyflwyno gwybodaeth.

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar ddatblygu medrau darllen disgyblion ar draws y cwricwlwm dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ddarparu hyfforddiant perthnasol ar gyfer athrawon. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi gwerthuso'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar addysgu a dysgu. Yn ychwanegol, ceir tystiolaeth gyfyngedig mewn llyfrau a gwersi fod strategaethau'n cael eu hymgorffori ar draws y cwricwlwm. At ei gilydd, ceir cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu medrau darllen datblygedig mewn llawer o bynciau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod o hyd i wybodaeth yn gywir mewn testunau ac yn ei defnyddio i ateb cwestiynau darllen a deall sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau darllen i'w helpu i ddeall a dadansoddi testunau mwy heriol. Er enghraifft, maent yn nodi dyfyniadau perthnasol i gefnogi eu hastudiaeth o gymeriadau a themâu mewn testun llenyddol. O roi'r cyfle iddynt, mae tua hanner y disgyblion yn dod i gasgliadau addas o'r testunau maent yn eu darllen. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos medrau darllen datblygedig yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn rhoi sylwadau craff ar yr arddull a'r syniadau yn y nofel, 'Heroes'. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn darllen ar goedd â rhuglder a mynegiant addas pan roddir cyfle iddynt wneud hynny.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n gywir a gyda strwythur addas, ar y cyfan. Maent yn atalnodi'n dda ac yn sillafu terminoleg bwnc yn gywir. Maent yn addasu gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn baragraffau addas. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn amrywiaeth o ddulliau ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft mewn gwersi Saesneg, maent yn ysgrifennu llythyr at eu Haelod Seneddol ynghylch p'un a ddylai pobl ifanc 16 oed gael caniatâd i bleidleisio mewn etholiadau. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn creu cynlluniau traethawd cydlynus ac argyhoeddiadol, ac yn defnyddio ffynonellau hanesyddol yn effeithiol i greu adroddiadau cytbwys. Mae ychydig ohonynt yn defnyddio geirfa gymhleth yn rheolaidd ac yn fedrus yn eu hysgrifennu i ennyn diddordeb a pherswadio y darllenydd. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn gwella'u hysgrifennu'n dda trwy fyfyrio a datblygu ymhellach. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg rheolaidd, ac mae diffyg cydlyniad, strwythur a chynnwys digonol yn eu hysgrifennu. Ceir cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn ychydig o bynciau. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm. Yn ychwanegol, nid oes digon o ffocws ar wella cywirdeb technegol disgyblion. Ni chaiff gwaith yr ysgol i wella medrau llythrennedd disgyblion ei gydlynu na'i werthuso'n ddigon da iddo gael yr effaith fwyaf. Hefyd, ceir darpariaeth annigonol i gynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach.

### Cymraeg

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol i helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg. At ei gilydd, mae disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu'r Gymraeg ac yn gwneud ymdrech gydwybodol i'w defnyddio yn ystod gwersi. Mae llawer ohonynt yn ymateb i gwestiynau mewn brawddegau llawn, maent yn ynganu'n gywir, ac yn defnyddio treigladau'n fedrus. O roi anogaeth a chyfleoedd iddynt ymarfer, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn sgyrsiau byr yn Gymraeg. Mae lleiafrif ohonynt yn sgwrsio'n annibynnol ac yn dda heb ddibynnu'n ormodol ar restrau geirfa. Yn ychwanegol, mae llawer o ddisgyblion yn nodi manylion a gwybodaeth allweddol yn gywir mewn testunau darllen syml, ac yn strwythuro'u hysgrifennu'n effeithiol gan ddefnyddio brawddegau sylfaenol.

### Rhifedd

Mewn gwersi mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau rhifedd cadarn mewn ystod o gysyniadau a gweithdrefnau. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio ac yn cymhwyso'r pedair rheol rhif yn hyderus, ac yn talgrynnu'n gywir i un lle degol. Maent hefyd yn dangos dealltwriaeth dda o dechnegau trin data sylfaenol ac yn darganfod y modd, y canolrif a'r amrediad yn gywir ar gyfer set o rifau. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datrys hafaliadau dau gam yn cynnwys rhannu a thynnu yn briodol. Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn defnyddio trigonometreg yn fedrus i gyfrifo ochrau ac

onglau coll mewn trionglau ongl sgwâr. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn ychydig o bynciau eraill heblaw mathemateg. Er enghraifft, mewn gwersi gwyddoniaeth, mae llawer o ddisgyblion yn plotio graffiau â chywirdeb rhesymol ac yn dethol gwybodaeth berthnasol o'r rhain. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw cynllunio strategol yr ysgol o ran rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Nid yw darpariaeth rhifedd wedi cael ei mapio ar draws meysydd pwnc nac wedi cael ei chydlynu a'i gwerthuso'n effeithiol. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn y ddarpariaeth ar gyfer datblygu rhifedd, ac nid ydynt yn cymryd camau pendant chwaith i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

### Medrau digidol

Mewn gwersi technoleg gwybodaeth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio cymwysiadau meddalwedd amrywiol â hyder cynyddol at wahanol ddibenion. Er enghraifft, maent yn dadansoddi setiau data syml gan ddefnyddio offer taenlen a fformiwlâu "Chwilio", yn creu algorithmau syml mewn gweithgareddau codio, ac yn dylunio cronfeydd data syml i reoli ac archwilio gwybodaeth. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar gyfleoedd i ddysgu am e-ddiogelwch gan ennill dealltwriaeth gadarn o sut i reoli manteision a risgiau bod yn ddinesydd digidol. At ei gilydd, nid yw arweinwyr wedi sefydlu dull cydlynus na strategol i ddatblygu medrau digidol disgyblion ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu cymhwysedd digidol a chymhwyso hyn mewn ffyrdd ystyrlon a graddol yn anghyson.

### Cwricwlwm

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm sy'n briodol o eang a chytbwys, sy'n cefnogi datblygiad academaidd, personol ac ysbrydol disgyblion. Mae arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir a phwrpasol ar gyfer y cwricwlwm sy'n defnyddio pedwar diben Cwricwlwm i Gymru yn dda, ac yn adlewyrchu rhinweddau Catholig yr ysgol. Mae'r weledigaeth hon yn llywio llawer o gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm gan yr ysgol.

Mae arweinwyr pwnc wedi cydweithio ar draws yr ysgol, gyda phartneriaid ysgolion cynradd a phartneriaid allanol i ffurfio'u cynlluniau dysgu. Mae staff wedi elwa ar ddysgu proffesiynol perthnasol i wella'u dealltwriaeth o Gwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, nid yw rhesymeg arweinwyr pwnc dros ddewis cynnwys a dilyniant eu cwricwlwm penodol bob amser yn glir. O ganlyniad, mae ansawdd ac addasrwydd cynnwys cwricwlwm mewn gwahanol feysydd pwnc yn rhy amrywiol.

Mae disgyblion hŷn yn manteisio ar ystod eang o ddewisiadau TGAU ac opsiynau galwedigaethol. Maent yn cael arweiniad defnyddiol i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae disgyblion yn elwa ar raglen addas o arweiniad gyrfaoedd a dysgu yn gysylltiedig â gwaith.

Mae'r cwricwlwm yn cefnogi datblygiad creadigol, corfforol ac artistig disgyblion yn dda. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn datblygu medrau cyflogadwyedd gwerthfawr ac annibyniaeth trwy wersi medrau pwrpasol yng nghyfnod allweddol 3, sy'n eu paratoi yn addas ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yng nghyfnod allweddol 4.

Mae'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wedi'i strwythuro'n dda yng nghyfnod allweddol 3, ac yn ymateb yn briodol i anghenion disgyblion, wedi'i lywio gan wybodaeth berthnasol am les a llais y disgybl. Mae'r rhaglen ABCh yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o themâu cymdeithasol pwysig fel ymwybyddiaeth o amrywiaeth. Yn ychwanegol, mae'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth er mwyn gwneud dewisiadau iach am ffordd o fyw. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar raglen addysg cydberthynas a rhywioldeb addas.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Caiff yr agwedd hon ar waith yr ysgol ei chyflwyno'n eglur trwy wersi addysg grefyddol ac mae'n treiddio trwy bob agwedd ar fywyd ysgol.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o weithgareddau sy'n cyfoethogi eu profiadau dysgu ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau i Langrannog a Pharis, yn ogystal ag ystod helaeth o glybiau fel codi pwysau, gwyddbwyll a sesiynau adolygu pynciau.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae arweinwyr a staff yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn rhoi gwerth uchel ar feithrin disgyblion caredig, llwyddiannus a gwydn sy'n falch o'u gwerthoedd Catholig. Mae staff yn arddel y gwerthoedd hyn yn gryf ac mae eu gofal am les disgyblion ar draws yr ysgol yn gryfder nodedig. Mae ystod eang o glybiau amser cinio ac ar ôl ysgol ar gael sy'n cefnogi lles ysbrydol, emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol, fel clwb CAFOD, clwb trafod, band roc a chlybiau athletau.

Mae arweinwyr cynnydd yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae'r tîm yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ynghylch cyflawniad disgyblion, yn ogystal ag unrhyw bryderon am unigolion neu grwpiau gyda phob un o'r staff. Mae gan yr ysgol system ymddygiad a gwobrau a ddeellir yn dda. Fodd bynnag, ni chaiff y system hon ei gweithredu'n ddigon cyson ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol strategaeth glir i ymateb i unrhyw fwlio. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion fod yr ysgol yn delio'n addas ag achosion o fwlio. Mae staff yn darparu rhaglenni cymorth teilwredig ar gyfer unigolion i'w helpu i ddeall a mynd i'r afael ag unrhyw ymddygiadau amhriodol. O ganlyniad i systemau cymorth effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt bryder.

Mae'r Ganolfan Gynnydd (Progress Centre) yn ganolfan werthfawr ar gyfer adnoddau lles sy'n cynnig ymyriadau amrywiol ac addas i gefnogi disgyblion. Mae staff yn defnyddio systemau cadarn i nodi anghenion penodol disgyblion unigol a rhoi ymyriadau priodol ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni cymorth llythrennedd emosiynol buddiol a chymorth gan sefydliadau allanol fel Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd.

Mae disgyblion yn datblygu medrau arwain gwerthfawr trwy eu haelodaeth o Dîm y Gaplaniaeth (Chaplaincy). Mae'r ysgol wedi ailstrwythuro'i 'senedd disgyblion' yn ddiweddar hefyd i gynnwys tri is-bwyllgor. Mae hyn yn dechrau cynnig cyfleoedd arwain ystyrlon i ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r pwyllgor ethos yn trefnu 'diwrnod diwylliant' blynyddol sy'n dathlu ystod amrywiol y cefndiroedd ar draws yr ysgol. Mae cymorth effeithiol ar gael i helpu disgyblion â'r broses ymgeisio, ac mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gynwysoldeb, gan sicrhau bod pob grŵp disgyblion yn cael ei gynrychioli. Fodd bynnag, ni chaiff gwaith y senedd disgyblion ei ddeall yn eang gan ddisgyblion ar draws yr ysgol. Fel rhan o'i hymdrech i leihau effaith tlodi a chefnogi lles disgyblion, mae staff a disgyblion wedi cydweithio ac wedi cyflwyno siop prom yn ddiweddar, a darperir cymorthdaliadau ar gyfer ymweliadau a thripiau ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion o'r farn fod yr ysgol yn gwrando ar eu barn ac yn gwneud newidiadau o ganlyniad. Dangosir hyn trwy'r posteri 'dywedoch chi, gwrandawon ni' ('you said, we listened') sy'n cael eu harddangos o gwmpas yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cyflwyno banc gwisg ysgol i ymateb i lais y disgybl.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Rhoddir gwybodaeth berthnasol i athrawon am ddisgyblion ag ADY. Mae hyn yn cynnwys proffiliau disgyblion un dudalen, strategaethau cymorth awgrymedig, a thaflenni trosolwg 'dosbarth ar dudalen'. Yn ogystal â hyn, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) yn rhannu gwybodaeth fuddiol gyda staff am ddisgyblion. Pan gaiff cynorthwywyr addysgu eu cyfarwyddo'n effeithiol gan yr athro dosbarth, maent yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion ag ADY. Fodd bynnag, mae dysgu proffesiynol ysgol gyfan annigonol ar gyfer staff ar sut i gynorthwyo disgyblion ag ADY yn eu gwersi.

Nid yw cynnydd disgyblion ag ADY ac effaith y cymorth a gânt yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol. Nid yw athrawon yn rhoi ystyriaeth ddigon da i anghenion y disgyblion hyn pan fyddant yn cynllunio'u gwersi. O ganlyniad, mae lleiafrif o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i hyrwyddo presenoldeb da, ac yn rhoi ymateb graddedig addas i ddisgyblion y mae eu presenoldeb yn peri pryder. Gwnaeth yr ysgol gynnydd arbennig o dda yn ystod blwyddyn academaidd 2023-2024. Mae presenoldeb ysgol gyfan yn cymharu'n dda â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg, er ei fod

yn parhau i fod islaw lefelau cyn y pandemig. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella hefyd, a chyfradd yr absenoldebau parhaus wedi gostwng. Mae cyfradd y gwelliant wedi arafu yn 2024-2025. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi cyflwyno mwy o strategaethau i dargedu disgyblion y mae eu presenoldeb yn peri'r pryder mwyaf.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar waith i ddiogelu disgyblion. Mae arweinwyr yn annog disgyblion a staff i roi gwybod am bob pryder gan ddefnyddio ystod o ddulliau. Mae'r rhain yn cynnwys system hunangyfeirio fuddiol ar gyfer disgyblion.

## Arwain a gwella

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi'i seilio ar themâu datblygu llwyddiant, meithrin gwydnwch a byw gwerthoedd yr Efengyl. Mae'n rhannu ei weledigaeth yn llwyddiannus ar draws yr ysgol ac yn rhoi ffocws cryf ar ofal a chymorth ar gyfer ei staff a'i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn cefnogi gweledigaeth y pennaeth yn dda i sicrhau ethos Catholig cryf ar draws cymuned yr ysgol gyfan.

Ceir cyfleoedd rheolaidd a phriodol i arweinwyr ac athrawon ystyried agweddau allweddol ar eu gwaith gyda'u rheolwyr llinell. Caiff staff eu hannog hefyd i fyfyrio'n briodol ar eu harfer trwy'r gweithgarwch adolygu datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, mae diffyg trylwyredd i brosesau atebolrwydd cyffredinol ac nid ydynt yn cefnogi datblygiad staff yn effeithiol o fewn eu rolau nac yn canolbwyntio ar effaith eu gwaith.

Ceir ystod eang o ddysgu proffesiynol addas, gan gynnwys cyfleoedd priodol i staff ddatblygu eu medrau addysgu ac arwain. Mae'r rhain yn cynnwys rhannu arfer orau yn ogystal â chymryd rhan mewn llwybrau arweinyddiaeth a gweithgorau fel y fforwm addysgu. Nid yw effaith y cyfleoedd dysgu proffesiynol hyn wedi cael ei gwerthuso'n llawn. Mae Ysgol Sant Richard Gwyn yn ysgol arweiniol ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon, ac o ganlyniad, mae  staff yn yr ysgol yn elwa ar eu cysylltiadau â strategaethau addysg uwch ac ymchwil.

Mae uwch arweinwyr yn defnyddio dadansoddiad manwl o ddata deilliannau, yn ogystal â phrosesau addas ar gyfer olrhain a gosod targedau, i lywio'u barn am gynnydd disgyblion. Maent yn cynnal gweithgareddau monitro rheolaidd, gan gynnwys craffu ar waith ar y cyd a theithiau dysgu anffurfiol, ar draws y flwyddyn academaidd. Caiff arweinwyr ar bob lefel eu cynnwys yn y prosesau hunanwerthuso hyn. At ei gilydd, mae arweinwyr yn defnyddio'r gweithgareddau hyn i wirio cydymffurfiad â dulliau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau monitro hyn yn canolbwyntio'n ddigon da ar ansawdd yr addysgu na'i effaith ar gynnydd disgyblion. Nid yw gwerthuso agweddau ar les, fel gwaith y timau bugeiliol, wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Nid yw'r cysylltiad rhwng canfyddiadau hunanwerthuso arweinwyr a blaenoriaethau strategol eang yr ysgol yn ddigon cryf. Nid yw arweinwyr yn nodi'n fanwl gywir yr agweddau pwysicaf i'w gwella, nac yn cynllunio'n gadarn ar gyfer gwelliant. Er eu bod yn cyflwyno cyfleoedd newydd i adolygu eu blaenoriaethau, nid ydynt yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon da. Er gwaethaf y diffygion hyn, mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr wedi goruchwylio gwelliannau sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft mewn blaenoriaethau cenedlaethol fel y ddarpariaeth ar gyfer darllen a datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, nid yw hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wedi cael effaith ddigonol mewn agweddau pwysig fel gwella ansawdd yr addysgu, y ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm, a chymorth ar gyfer disgyblion ag ADY.

Mae'r rheolwr busnes a'r pennaeth yn rheoli'r gyllideb ac yn monitro gwariant yn ofalus. Mae llywodraethwyr yn goruchwylio'r broses hon yn briodol. Fodd bynnag, mae cyllideb bresennol yr ysgol yn destun cynllun i ostwng y diffyg yn y gyllideb a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o gyllid grant, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, ac yn monitro'n briodol. Mae strategaeth dlodi'r ysgol yn canolbwyntio'n fuddiol ar gefnogi lles a chyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i'w galluogi i ddatblygu'r medrau i fyw bywydau boddhaus.

Mae llywodraethwyr yn gefnogwyr angerddol i'r ysgol ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'i gwaith, ar y cyfan. Maent yn darparu her briodol a buddiol, yn enwedig o ran rheolaeth ariannol, iechyd a diogelwch, a'r cynllunio gweithredol sy'n gysylltiedig â'r adeilad ysgol newydd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2025